# Adroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu 2024/25

Grŵp Cynefin

# Grŵp Cynefin – Pwy ydyn ni

Mae Grŵp Cynefin yn gymdeithas dai yng Ngogledd Cymru. Rydym yn darparu cartrefi diogel, cynaliadwy ac o ansawdd. Mae ein dau is-gwmni, Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn cynnig gwasanaethau gofal, atgyweirio ac addasu, gan ganiatáu i bobl fyw'n annibynnol yn eu cymuned o ddewis. Mae ein his-gwmnïau hefyd yn cynnig gwasanaethau garddio a thechnegol.

Rydyn ni'n berchen ar ac yn rheoli **5,000** o gartrefi

Rydyn ni'n gwasanaethu **5,000** o denantiaid ac yn darparu tai a gwasanaethau cefnogol i oddeutu **15,000** o gwsmeriaid bob blwyddyn.

Mae gennym **322** aelod o staff

Ein hardal weithredu yw chwe sir gogledd Cymru, a gogledd Powys

# Ein gweledigaeth strategol a'n datganiad cenhadaeth



## Ein gweledigaeth strategol:

**I fod yn sefydliad cynhwysol ac effeithiol sy'n darparu cartrefi diogel, cynaliadwy, o ansawdd.**

## Datganiad cenhadaeth:

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy ganolbwyntio ar ddarparu cartrefi diogel, cynaliadwy o ansawdd, drwy:**

- **Fod yn ddarparwr tai sy'n perfformio ar y lefel uchaf**
- **Parhau i fod yn sefydliad cymunedol a chydweithredol sy'n grymuso ein tenantiaid, cwsmeriaid, staff a chymunedau i ffynnu**
- **Bod yn sefydliad cynhwysol, drwy ddathlu ein hunaniaeth Gymreig.**

Drwy gyflwyno'r uchod, byddwn yn:

- ***Canolbwyntio ar ddarparu cartrefi diogel a chyfforddus o ansawdd*** trwy ddarparu gwasanaethau tai sy'n perfformio ar y lefel uchaf
- Sbarduno ***gwerth am arian ar*** draws y grŵp i sicrhau'r defnydd effeithlon a gorau posibl o adnoddau (ariannol, dynol a chorfforol) er budd ein cwsmeriaid, ein tenantiaid a'n cymunedau
- Croesawu dod yn ***sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata*** drwy ***Strategaeth Trawsnewid Digidol*** uchelgeisiol (DTS) sy'n cefnogi diogelwch data, cydymffurfiaeth cywirdeb ac arloesedd, gan sicrhau ein bod yn ***Gwneud Penderfyniadau sy'n cael eu Gyrru gan Ddata.***
- ***Moderneiddio ein model gweithredu i gryfhau cysylltedd ar draws y grŵp*** i wella cydweithio a gwneud y gorau o'n manteision materol
- Adeiladu **ar allu ein tenantiaid i arwain** er mwyn gallu cymryd rôl arweiniol ar lefelau uchaf y grŵp
- Dod yn ***gyflogwr rhagorol*** drwy gynnig gwaith pwrpasol a hyblygrwydd drwy **gefnogaeth uchel ac ethos sy'n annog her.**

# Adroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad ac effaith Grŵp Cynefin mewn agweddau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl) ein gweithrediadau.

Mae Grŵp Cynefin wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Safon Adrodd Cynaliadwyedd ar gyfer Tai Cymdeithasol, a ddatblygwyd gan y Grŵp Tai Cymdeithasol Amgylchedd, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl) (gweithgor cydweithredol o gymdeithasau tai, benthycwyr, buddsoddwyr ac arbenigwyr yn y diwydiant) yn 2020.

Pwrpas y Safon ACLl yw symleiddio a safoni adroddiadau ACLl i sicrhau perfformiad cymharol a thryloyw ac i ddenu mwy o fuddsoddiad mewn tai cymdeithasol yn y pen draw.

## Y 3 piler adrodd ACLl yw:

**1**

**Amgylcheddol:**
Sut mae Grŵp Cynefin yn effeithio ar y blaned. Mae hyn yn cynnwys allyriadau carbon, defnydd ynni, rheoli gwastraff, a gwytnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

**2**

**Cymdeithasol:**
Sut mae Grŵp Cynefin yn rheoli perthnasoedd – gyda gweithwyr, tenantiaid, cwsmeriaid, cyflenwyr a chymunedau. Mae hyn yn cynnwys materion fel amrywiaeth a chynhwysiant, arferion gwaith, ac ymgysylltu â'r gymuned.

**3**

**Llywodraethu:**
Sut mae Grŵp Cynefin yn cael ei redeg. Mae hyn yn cynnwys strwythurau llywodraethu ac arweinyddiaeth, tirwedd reoleiddiol, tryloywder, risg, ac arferion busnes moesegol.

# AMGYLCHEDD

## Newid Hinsawdd

| Meini Prawf | Canlyniadau 2024/25 |
|---|---|
| Dosbarthiad sgôr EPC cartrefi presennol (y rhai a gwblhawyd cyn diwedd y flwyddyn arniannol ddiwethaf). | % y Cartrefi sydd â sgôr A = 1.2 %<br>% y Cartrefi sydd â sgôr B = 14.3 %<br>% y Cartrefi sydd â sgôr C = 49.4 %<br>% y Cartrefi sydd â sgôr D = 27.6 %<br>% y Cartrefi sydd â sgôr E neu waeth = 7.5 % |
| Dosbarthiad sgôr EPC cartrefi presennol (y rhai a gwblhawyd cyn diwedd y flwyddyn arniannol ddiwethaf). | % y Cartrefi sydd â sgôr A = 29 %<br>% y Cartrefi sydd â sgôr B = 64 %<br>% y Cartrefi sydd â sgôr C = 7 % |
| A oes gan y darparwr tai darged a strategaeth Sero Net? | Mae Strategaeth Cynaladwyedd 2021-2030 Grŵp Cynefin yn sefydlu cyfres o dargedau corfforaethol, gan gynnwys targed ar gyfer lleihau allyriadau o 4 % yn flynyddol, gan gyrraedd statws Carbon Sero Net erbyn 2044. Bydd adolygiad strategol o'r Strategaeth Cynaladwyedd yn dechrau yn 2026 er mwyn sicrhau aliniad cyflawn gyda'r Cynllun Corfforaethol newydd.<br><br>Mae Grŵp Cynefin hefyd yn rhagweithiol wrth ddiogelu ac ehangu bioamrywiaeth, gyda phob datblygiad yn rhoi bioamrywiaeth wrth galon y cynlluniau, gan gynnwys ecoleg, systemau draenio cynaliadwy (SUDS), a chynlluniau tirlunio. Mae Grŵp Cynefin hefyd yn cyflwyno prosiectau penodol sydd â'r nod o wella bioamrywiaeth ar lefel leol, e.e. prosiect plannu bwlbiau. Mae'r Gwarcheidwaid Ynni ymroddedig hefyd yn helpu tenantiaid i fyw'n fwy cynaliadwy ac arbed arian ar yr un pryd. |

# AMGYLCHEDD

## Rheoli Adnoddau

| Meini Prawf | Canlyniadau 2024/25 |
|---|---|
| Oes gan Grŵp Cynefin strategaeth i ddefnyddio neu gynyddu'r defnydd o ddeunyddiau sy'n dod o fynhonellau cyfrifol ar gyfer yr holl waith adeiladu ac atgyweirio?<br><br>Os felly, sut mae Grŵp Cynefin yn gosod targedau ac yn mesur perfformiad? | Oes. Mae'n ofynnol i bob Contractwr Fframwaith adeiladu newydd ddarparu tystiolaeth eu bod yn cael deunyddiau o ffynonellau cyfrifol. Yn ogystal, mae polisi Cydymffurfio SATC Grŵp Cynefin yn nodi gweithredu mesurau eraill fel rhan o'r rhaglen Buddsoddi Cyfalaf. Mae Grŵp Cynefin yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Llywodraeth Cymru a gofynion rheoleiddio. |
| A oes gan Grŵp Cynefin strategaeth ar gyfer rheoli gwastraff sy'n cynnwys deunyddiau adeiladu?<br><br>Os felly, sut mae Grŵp Cynefin yn gosod targedau ac yn mesur perfformiad? | Oes. Mae'n ofynnol i bob Contractwr Fframwaith adeiladu newydd ddarparu tystiolaeth yn ymwneud â rheoli gwastraff. Hefyd, mae polisi Cydymffurfio SATC Grŵp Cynefin yn nodi gweithredu mesurau eraill fel rhan o'r rhaglen Buddsoddi Cyfalaf. Mae Grŵp Cynefin yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Llywodraeth Cymru a gofynion rheoleiddio. |
| A oes gan Grŵp Cynefin strategaeth ar gyfer rheoli dŵr?<br><br>Os felly, sut mae Grŵp Cynefin yn gosod targedau ac yn mesur perfformiad? | Oes. Mae'n ofynnol i bob Contractwr Fframwaith adeiladu newydd ddarparu tystiolaeth o reoli dŵr. Yn ogystal, mae polisi Cydymffurfio SATC Grŵp Cynefin yn nodi gweithredu mesurau effeithlonrwydd dŵr eraill fel rhan o'r rhaglen Buddsoddi Cyfalaf. Mae Grŵp Cynefin yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Llywodraeth Cymru a gofynion rheoleiddio. |

# CYMDEITHASOL

## Fforddiadwyedd a Diogelwch

| Meini Prawf | Canlyniadau 2024/25 |
|---|---|
| Ar gyfer eiddo sy'n ddarostyngedig i'r gyfundrefn rheoleiddio rhent, adroddir yn erbyn un neu fwy o Fetrigau Fforddiadwyedd:<br><br>1) Rhent o'i gymharu â rhent canolrifol y sector rhentu preifat (PRS) ar draws yr Awdurdod Lleol perthnasol<br><br>2) Rhent o'i gymharu â'r Lwfans Tai Lleol (LHA) perthnasol | 1 ystafell wely: 97 % o Rent LHA<br>2 ystafell wely: 99 % o Rent LHA<br>3 ystafell wely: 94 % o Rent LHA<br>4 ystafell wely: 84 % o Rent LHA<br><br>1 ystafell wely: 54 % o Rent y Farchnad<br>2 ystafell wely: 61 % o Rent y Farchnad<br>3 ystafell wely: 57 % o Rent y Farchnad<br>4 ystafell wely: 60 % o Rent y Farchnad |
| Cyfran, a nifer, y cartrefi presennol (sy'n eiddo i ni a/neu'n cael eu rheoli gennym) a gwblhawyd cyn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a ddyrannwyd i:<br>- Anghenion cyffredinol (rhent cymdeithasol)<br>- Rhent canolradd<br>- Rhent fforddiadwy<br>- Tai â Chefnogaeth<br>- Tai i bobl hŷn<br>- Perchnogaeth tai cost isel<br>- Cartrefi gofal<br>- Sector Rhentu Preifat<br>- Arall | Anghenion Cyffredinol (rhent cymdeithasol): 60.30 %<br>Canolradd: 4.71 %<br>Fforddiadwy (Rhentu i Brynu): 0.32 %<br>Tai â Chefnogaeth: 6.71 % (Yn cynnwys 4.73 % o Leoedd Gwely, 1.98 % Eiddo Hunangynhwysol neu Unigol Ychwanegol)<br>Tai i Bobl Hŷn: 7.34 %<br>Perchnogaeth Cartref Cost Isel: 0.45 %<br>Cartrefi Gofal: 0 %<br>Sector Rhentu Preifat: 0 %<br>Arall (Wedi'i Reoli): 0.34 %<br>Arall (Gofal Ychwanegol): 4.71 %<br>Arall (Cymorth Prynu a Rhanberchnogaeth): 15.13 % |
| Cyfran, a nifer, y cartrefi presennol (sy'n eiddo i ni a/neu'n cael eu rheoli gennym) a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a ddyrannwyd i:<br>- Anghenion cyffredinol (rhent cymdeithasol)<br>- Rhent canolradd<br>- Rhent fforddiadwy<br>- Tai â Chefnogaeth<br>- Tai i bobl hŷn<br>- Perchnogaeth tai cost isel<br>- Cartrefi gofal<br>- Sector Rhentu Preifat<br>- Arall | 29 Cymorth Prynu = 35 %<br>33 Fflat Gofal Ychwanegol = 40 %<br>4 Tai â Chefnogaeth = 5 %<br>1 Rhent Canolradd = 1 %<br>15 Rhent Cymdeithasol = 19 % |

# LLYWODRAETHU

## Bwrdd ac Ymddiriedolwyr

| Meini Prawf | Canlyniadau 2024/25 |
|---|---|
| Pa ganran o Fwrdd y darparwr tai sydd wedi trosi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?<br>Pa ganran o Uwch Dîm Rheoli'r darparwr tai sydd wedi trosif yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf? | Trosiant y Bwrdd = 46 % (oherwydd y rheol 9 mlynedd, a rhai aelodau cyfetholedig wedi'u penodi i gefnogi sefyllfa rheoleiddiol adolygiedig Grŵp Cynefin)<br>Trosiant yr Uwch Dîm Rheoli = 0 % |
| Nifer aelodau'r bwrdd ar Bwyllgor Archwilio'r darparwr tai sydd â phrofiad ariannol diweddar a pherthnasol. | O'r 5 aelod presennol ar Bwyllgor Archwilio a Risg Grŵp Cynefin, ac yn seiliedig ar eu hasesiad sgiliau;<br>- 1 â phrofiad perthnasol 'uchel iawn' (Cadeirydd),<br>- 2 'uchel',<br>- 2 'canolig' |
| Pa ganran o fwrdd y darparwr tai sy'n gyfarwyddwyr anweithredol? | Mae pob un yn Gyfarwyddwyr Anweithredol, ac mae 10 ohonynt yn Aelodau llawn o'r Bwrdd. Mae 3 wedi'u cyfethol. |
| A ddarparwyd cynllun olyniaeth ar gyfer bwrdd y darparwr tai yn ystod y 12 mis diwethaf? | Do, ym mis Medi 2024. |
| Ers faint o flynyddoedd mae partner archwilio allanol presennol y darparwr tai wedi bod yn gyfrifol am archwilio'r cyfrifon? | 6 mlynedd. Yr archwilwyr yw Beever a Struthers. |
| Pryd oedd yr adolygiad effeithiolrwydd diwethaf a gynhaliwyd gan y bwrdd yn annibynnol? | Hydref 2023; adroddiad wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2024. |
| Sut mae'r darparwr tai yn ymdrin â gwrthdaro buddiannau yn y bwrdd? | Polisi a gweithdrefnau gwrthdaro ar waith<br>Proses flynyddol i ofyn am unrhyw wrthdaro<br>Eitem safonol ar agenda cyfarfodydd yn gofyn am wrthdaro |

Grŵp Cynefin

# CYMDEITHASOL

## Llais y tenant

| Meini Prawf | Canlyniadau 2024/25 |
|---|---|
| Yn ystod y 12 mis diwethaf, mewn faint o gwynion y mae'r Ombwdsmon cenedlaethol wedi penderfynu bod camweinyddu wedi digwydd?<br><br>Sut mae'r cwynion hyn (neu eraill) wedi arwain at newid arfer o fewn sefydliad y darparwr tai? | Yn ystod y 12 mis diwethaf, ni chafwyd unrhyw gwynion lle penderfynodd yr Ombwdsmon cenedlaethol fod camweinyddu wedi digwydd. Daethpwyd â 5 cwyn i'n sylw gan yr Ombwdsmon (5) ond ni aeth yr un ohonynt ymlaen i achos o gamweinyddu. Mae Grŵp Cynefin yn adolygu canlyniadau'r cwynion yn barhaus i ddysgu gwersi ac o 10 Mehefin 2025 ymlaen bydd Grŵp Bodlonrwydd a Chwynion newydd yn cyfarfod â thenantiaid ac aelodau staff, a fydd yn edrych ar sut y gall Grŵp Cynefin newid a gwella gwasanaethau o ganlyniad i ganlyniadau cwynion (Cam 1 a 2). |

# LLYWODRAETHU

## Bwrdd ac Ymddiriedolwyr

| Meini Prawf | Canlyniadau 2024/25 |
|---|---|
| Sut mae'r darparwr tai yn sicrhau ei fod yn cael mewnbwn gan ystod amrywiol o bobl, i'r prosesau llywodraethu?<br><br>A yw'r darparwr tai yn ystyried llais preswylwyr ar lefel y bwrdd a'r uwch reolwyr?<br><br>A oes gan y darparwr tai bolisïau sy'n ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) i recriwtio a dewis aelodau'r bwrdd ac uwch reolwyr? | Mae Grŵp Cynefin yn adolygu sgiliau a Chynllun Olyniaeth y Bwrdd yn flynyddol fel rhan o broses Werthuso'r Bwrdd. Caiff gofynion sgiliau ac amrywiaeth y Bwrdd eu hasesu hefyd. Mae Polisi Recriwtio Grŵp Cynefin hefyd yn nodi'r angen i dargedu a chynnwys Grŵpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y strwythur llywodraethu. Mae Grŵp Cynefin hefyd yn rhan o fframwaith 'Llwybr i'r Bwrdd' sy'n cefnogi unigolion lleiafrifoedd ethnig i ddod yn Aelodau o'r Bwrdd.<br><br>Mae ystyried llais y preswylwyr o bwysigrwydd allweddol i Grŵp Cynefin. Adolygwyd y Strwythur Llywodraethu i gynnwys Pwyllgor Tenantiaid, sy'n cynnwys seddi tenantiaid yn bennaf, ac mae'r Pwyllgor yn goruchwylio gwaith Fforwm y Tenantiaid (sy'n cyfarfod yn wythnosol), a chyflwynodd adroddiad 'Llais y Tenant' i'r Bwrdd yn chwarterol yn dangos sut mae tenantiaid wedi cyfrannu a gwneud gwahaniaeth mewn materion strategol.<br><br>Cymeradwywyd Strategaeth EDI newydd yn 2024, ac mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth yn cael ei weithredu ar hyn o bryd. Mae Grŵp Cynefin hefyd yn gweithio tuag at gyflawni achrediad EDI (QED 'Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth') erbyn diwedd 2025-26. |

# CYMDEITHASOL

## Llais y tenant

| Meini Prawf | Canlyniadau 2024/25 |
|---|---|
| Beth yw canlyniadau arolwg bodlonrwydd tenantiaid diweddaraf y darparwr tai?<br><br>Sut mae'r darparwr tai wedi gweithredu ar y canlyniadau hyn? | Mae 76 % o gwsmeriaid Grŵp Cynefin yn fodlon gyda'r gwasanaeth a ddarparwn. Mae Grŵp Cynefin wedi gweithredu ar y canlyniadau fel a ganlyn:<br><br>1. Yn dilyn ymatebion diweddaraf Grŵp Cynefin, gwnaed galwadau dilynol i bob cwsmer anfodlon i gael gwell dealltwriaeth o'u hanfodlonrwydd. Roedd y rhan fwyaf o'r anfodlonrwydd yn ymwneud â gwaith atgyweirio gofynnol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thaliadau gwasanaeth.<br><br>2. Mae Grŵp Cynefin wedi cychwyn rhaglen fuddsoddi cyfalaf Cynnal a Chadw Cynlluniedig sylweddol i helpu i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023. Ar yr un pryd, mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) yn parhau i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi. Mae Polisi Cydymffurfio SATC wedi'i ddiweddaru hefyd wedi'i lansio i gefnogi'r ymdrechion hyn.<br><br>3. O'r anfodlonrwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, roedd 29 % yn achosion cyfredol (a phob un yn lefel isel i ganolig). Roedd yr achosion eraill yn hanesyddol, neu heb eu hadrodd i Grŵp Cynefin. Mae gan Grŵp Cynefin raglen weithredol i leihau anfodlonrwydd ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae'n flaenoriaeth strategol a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol newydd Grŵp Cynefin, lle mabwysiadir dull dim goddefgarwch. Bydd Grŵp Cynefin hefyd yn adrodd ar fesurau perfformiad ychwanegol o 25/26 o ran mesur hyd yr amser y mae achosion yn cael eu cadw ar agor.<br><br>4. O ran anfodlonrwydd ynghylch taliadau gwasanaeth, naill ai roedd y materion eisoes wedi'u datrys neu roeddent yn cael eu symud ymlaen ar adeg y galwadau dilynol. Fodd bynnag, byd adolygiad strategol o Daliadau Gwasanaeth gan gynnwys prosesau a gwerth am arian yn cael ei gynnal yn 2025/26. |
| Pa drefniadau sydd ar waith i alluogi trigolion i ddal rheolwyr i gyfrif am ddarpariaeth gwasanaethau? | Mae Grŵp Cynefin yn gweithredu strwythur gweithgar a chadarn ar gyfer cyfranogiad tenantiaid, ar lefel strategol a gweithredol, gan sicrhau bod tenantiaid yn chwarae rhan ganolog wrth lunio ac archwilio gwasanaethau. Yn ganolog i'r strwythur hwn mae'r Pwyllgor Tenantiaid, sy'n is-bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd Rheoli. Mae'r pwyllgor hwn - sy'n cynnwys tenantiaid, aelodau o'r Prif Dim Arweinyddiaeth (PDA), ac aelodau'r Bwrdd—yn cwrdd yn rheolaidd ac yn goruchwylio'r holl waith a wneir ar draws y grŵp, gan ddarparu llwybr uniongyrchol ar gyfer llywodraethu dan arweiniad tenantiaid. Yn ogystal, mae'r Fforwm Tenantiaid yn cwrdd yn wythnosol i drafod darpariaeth gwasanaethau ac i gymeradwyo dogfennau gan ddefnyddio'r Stamp Cymeradwyo Tenantiaid, gan adlewyrchu eu rôl ym maes sicrhau ansawdd a gwneud penderfyniadau. Mae'r Fforwm hefyd yn sefydlu Grwpiau Tasg a Gorffen i archwilio pynciau penodol megis y Polisi Cymydog Da a'r Llawlyfr Tenantiaid. Yn ddiweddar, ehangodd eu cyfraniad i gyd-ddylunio Cynllun Corfforaethol newydd Grŵp Cynefin ar gyfer 2025–28, gan amlygu eu rôl hanfodol mewn datblygiad strategol. |

# CYMDEITHASOL

## Diogelwch ac Ansawdd Adeiladau

| Meini Prawf | Canlyniadau 2024/25 |
|---|---|
| Disgrifiwch gyflwr portffolio'r darparwr tai, gan gyfeirio at:<br><br>% o gartrefi y mae'r holl wiriadau diogelwch nwy gofynnol wedi'u cynnal ar eu cyfer.<br>% o gartrefi y mae'r holl asesiadau risg tân gofynnol wedi'u cynnal ar eu cyfer.<br>% o gartrefi y mae'r holl wiriadau diogelwch trydanol gofynnol wedi'u cynnal ar eu cyfer. | Cofnod Diogelwch Nwy Landlord (LGSR) = 100 %<br>Asesiadau Risg Tân (FRA) = 100 %<br>Profi Trydanol = 99.98 % |
| Pa ganran o gartrefi sy'n bodloni'r safon ansawdd tai genedlaethol?<br><br>O'r rhai sy'n methu, beth mae'r darparwr tai yn ei wneud i fynd i'r afael â'r methiannau hyn? | Daeth Safonau Ansawdd Tai Cymru (2) i rym ym mis Ebrill 2024. Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf o adrodd yn erbyn y safon newydd, mae Grŵp Cynefin (fel cymdeithasau tai eraill) yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau rhagdybiaethau, uniondeb a dilysiad data, a chydymffurfiaeth cyn rhannu'r canlyniadau. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gadarnhau data ar gyfer 2024/25 erbyn diwedd ail chwarter 2025. |
| Sut ydych chi'n rheoli ac yn lliniaru risg lleithder a llwydni i'ch preswylwyr? | Mae Grŵp Cynefin wedi mabwysiadu Polisi Lleithder a Llwydni, ac mae unrhyw bryderon neu adroddiadau am leithder a llwydni gan denantiaid a chwsmeriaid yn cael eu cofnodi gydag archeb am archwiliadau'n cael eu gwneud gyda'n Swyddogion Cynnal a Chadw Ardal er mwyn iddynt ymweld, archwilio a delio â'r problemau. Ar hyn o bryd mae Grŵp Cynefin yn cynnal arolygon cyflwr stoc o'n heiddo gydag 86 % wedi'u cwblhau hyd yma ac yn parhau ar raglen dreigl 20 % lle mae unrhyw bryderon lleithder a llwydni gan y syrfewyr yn cael eu hadrodd yn ôl i ni eu hadolygu ac ymateb iddynt. |